# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com

£1

Awst 2025 – Cyfrol 10 – Rhifyn 11

## Gwobrau diwedd tymor Cynghrair Pêl-droed yr Haf

Enillwyr y gwobrau oedd:

Arwr y clwb - Jimmy McNally

*Tîm y dynion:*

Chwaraewr y cefnogwyr: Steffan Parry

Chwaraewr ifanc: Aled Jones

Chwaraewr y rheolwr: Tom Hughes

Chwaraewr y chwaraewyr: Steffan Parry

Gwobr Chwaraewr Ifanc Len Parry: Teifi Williams

*Tîm y merched:*

Chwaraewr y cefnogwyr – Susan Ward

Chwaraewr y rheolwr – Alisha Whitehead-Hughes

Chwaraewr y chwaraewyr – Chomphunart Janpheng





**Roedd 2025 yn dymor amrywiol iawn, ond am gymuned!**

Diolch i bawb am eu cefnogaeth drwy'r tymor, ac yn arbennig i:
Olly Williams ac Ethan Plumb am fy helpu i hyfforddi'r plant drwy'r flwyddyn;
Huw Euron Williams am helpu gyda'r plant adeg y twrnameintiau ac am fod yn ysgrifennydd gwych;
Sean Roberts am ei gefnogaeth a'i waith fel trysorydd ;
Russ Jones am fod yn gadeirydd anhygoel ac yn dipyn o giamstar ar y cyfryngau cymdeithasol;
Selina Humphreys am bob peth mae hi'n ei wneud, o olchi'r dillad i weini yn y gegin;
Jack Crompton a John Jones am fy nghefnogi i ar ddiwrnod gêm – help aruthrol;
perchnogion y Golden Lion am eu croeso;
Bryn Williams, Jordan Oldbury a Chris Williams am eu nawdd;
pob chwaraewr, rhiant a chefnogwr;
ac yn olaf, ond yn bendant nid y lleiaf, Chris Williams am fod yn rheolwr cynorthwyol arbennig ac yn ffrind gorau. Byddwn i'n methu gwneud hyn hebddot ti, nac yn ei wneud.

**Jimmy McNally**

# Pytiau newyddion

Croeso i Sam and Jaymie Davidson sydd wedi dod i fyw i Clwyd Nant. Gobeithiwn y byddwch yn hapus iawn yma.

Dymunwn wellhad buan i Emma Jones (y siop) yn sgil ei thriniaeth ddiweddar.

Cydymdeimlwn â Buddug Foulkes ar farwolaeth ei gŵr, John; ag Angie Hughes, Tŷ Ceffyl Bach, ar golli ei mam, Sandra Hosking Parry; ac â theulu Hughie Plumb, a roddwyd i orffwys ym mynwent St Tyrnog 29 Gorffennaf.

Roedd yn ddrwg gennym glywed am farwolaeth Chris Tynan (gweddw'r diweddar Terry Tynan), a fu farw 16 Gorffennaf.

Llongyfarchiadau i Cara (Glan y Wern Isa), Hari (Sgubor Wen) a Siwan (Bryn Teg), sydd newydd raddio o Brifysgol Caerdydd. Dymuniadau gorau i'r dyfodol.

### Wi-Fi yn yr Ystafelloedd Coco

Roedd yn bleser gan y Cyngor Cymuned dderbyn cyfarpar newydd am ddim gan Jangala, elusen sydd yn cynorthwyo cymunedau ac unigolion i fedru cysylltu â'r rhyngrwyd.

Mae Jangala yn darparu cyfarpar ar draws y byd drwy eu prosiect 'Get Boxes' drwy ddefnyddio cerdyn SIM tebyg i gerdyn ffôn symudol i wneud cysylltiad. Mae'r gwasanaeth yma yn rhad ac am ddim i ni am gyfnod o ddeuddeg mis ac mi allwn wedyn gael cerdyn SIM rhad i barhau â'r gwasanaeth.

Rydym wedi cael dau focs sydd yn golygu y byddwn yn defnyddio un ar gyfer gwaith y Cyngor, megis rhedeg cyfarfodydd Zoom, a bydd y llall ar gyfer unrhyw un arall sydd yn defnyddio'r Ystafelloedd Coco. Bydd poster ar y wal yno yn dangos sut i gysylltu eich ffôn, eich i-pad neu'ch gliniadur – y cyfan yn rhad ac am ddim.

**Becky Gittins, AS Dwyrain Clwyd**
becky.gittins.mp@parliament.co.uk
Swyddfa'r etholaeth: 01352 871130

Pen blwydd hapus iawn i Margaret Williams, Rhiwbebyll Isaf, a fydd yn dathlu pen blwydd arbennig y mis yma. Ymddiheuriadau, Margaret, am ddatgelu'r gyfrinach – mwynhewch y fordaith!

Llongyfarchiadau i Amy a James Jones, merch yng nghyfraith a mab Clive a Lorna Jones, Nant Glyd, ar eu priodas ym mis Gorffennaf, a dymuniadau da i Emily a Shaun, Nant Glyd a fydd yn priodi ym mis Awst.



### Cadw'r pentre'n hardd a thaclus

Mae'r basgedi crog sydd wedi dod i'r golwg yma ac acw o gwmpas y pentre yn hyfryd. Diolch yn fawr i'r rheini sy'n gyfrifol amdanyn nhw.

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi dechrau torri'r tyfiant ar ymylon prif ffyrdd a deallwn y bydd y Cyngor Sir yn dechrau torri'r tyfiant ar lonydd llai drwy'r sir i gyd ddechrau mis Awst. Diolch yn fawr i'r ffermwyr lleol a'r tirfeddianwyr sydd wedi defnyddio'u hamser a'u peiriannau eu hunain i dorri rhai o'r ymylon, yn enwedig gerllaw cyffyrdd i sicrhau bod ein ffyrdd yn fwy diogel. Rydym wedi sylwi ar eich gwaith – diolch yn fawr.

# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Gwe | $1^{af}$ | Casglu cyfraniadau at DEC, 10am–2pm |
| Sad | $2^{il}$ | Gweithdy crefftau, 9am |
| Llun | $4^{ydd}$ | Gild Trefoil, 2pm |
| Maw | $5^{ed}$ | Clwb Llyfrau, 10am<br>Grŵp cyfeillgarwch, 7–9pm |
| Llun | $11^{eg}$ | Grŵp gweu a chrosio, 10am |
| Llun | $18^{fed}$ | Grŵp gweu a chrosio, 10am<br>Gweithdy crefftau, 6–9pm |
| Maw | $19^{eg}$ | Clwb Llyfrau, 10am |
| Mer | $20^{fed}$ | Tuesday Club, 2pm |
| Gwe | $29^{ain}$ | Grŵp cwiltio, 1.30–3.30pm |

I hurio **Neuadd y Pentre,** cysylltwch ag Ivan Butler: 07799570549 neu ar e-bost: ivanbutler897@btinternet.com

I hurio'r **Ystafelloedd Coco,** anfonwch e-bost at Emily Williams: emilylloyd1@tiscali.co.uk

# Eglwys St Tyrnog

| | | |
|---|---|---|
| $3^{ydd}$ | 11.15 | Boreol Weddi |
| $10^{fed}$ | 11.15 | Cymun Bendigaid |
| $17^{eg}$ | 11.15 | Cymun Bendigaid |
| $24^{ain}$ | 11.15 | Cymun Bendigaid |
| $31^{ain}$ | 10.30 | Gwasanaeth yr Ardal Genhadu yng Nghaerwys |

# Capel y Dyffryn

31 Awst Y Parch. Christopher Prew, 5pm

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:** Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies, Ann ac Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams.

***Anfonwch erthyglau neu newyddion at llandyrnognews@gmail.com***

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Gwe $1^{af}$ | Roger Jones – prisio eitemau | 10am–3pm |
| Sad $2^{il}$ | Grŵp crefftau | 10am–4pm |
| Llun $4^{ydd}$ | Côr | 7.30–9.30pm |
| Llun $11^{eg}$ | Côr | 7.30–9.30pm |
| Maw $12^{fed}$ | Pwyllgor y Sioe Flodau | 7–8pm |
| Sad $16^{eg}$ | Bore coffi – Hosbis St Cyndeyrn | 10am |
| Sul $17^{eg}$ | Digwyddiad preifat | 1–3pm |
| Llun $18^{fed}$ | Côr | 7.30–9.30pm |
| Llun $25^{ain}$ | Sioe flodau a chynnyrch | Drwy'r dydd |

## Siop Llandyrnog

**Oriau agor y siop**

| | |
|---|---|
| Llun | 8am – 5.30pm |
| Mawrth | 8am – 5.30pm |
| Mercher | 8am – 5.30pm |
| Iau | 8am – 5.30pm |
| Gwener | 8am – 5.30pm |
| Sadwrn | 8am – 4pm |

07301 573362
01745 422099

info@llandyrnogshop.com

ShopLlandyrnog

Llandyrnogshop.com

**Oriau agor y swyddfa bost**

Llun – Gwener 9am – 5.30pm

Sadwrn 9am – 12.30pm

Gallwch nôl parseli rydych wedi'u harchebu ar-lein o'r Swyddfa Bost.

Hefyd, postiwch bob peth wrth y cownter, gan fod incwm yn deillio o hyn.

# Ysgol Bryn Clwyd

Mae hi wedi bod yn hanner tymor prysur iawn ym Mryn Clwyd. Daeth ein ffrindiau o Ysgol Gellifor aton ni ar gyfer y diwrnod ras lliwiau – diwrnod llawn hwyl. Roedd hi’n hyfryd gweld y plant yn cymysgu â’i gilydd ac wrth eu boddau.

Mae’r llysiau yn ein gardd yn barod i’w hel ac fe wnaeth Mrs Tynan gacen siocled gyda’r betys roedden ni wedi’u tyfu.



Antur teithio drwy amser oedd ein drama diwedd y flwyddyn eleni. Roedden ni’n hynod o falch o’n plant am ddysgu eu geiriau a’r caneuon mor gyflym, gan fod yr arolwg gan Estyn wedi cyfyngu ar yr amser ymarfer.







Cafodd Blwyddyn 6 amser gwych ar eu taith ymadael â’r ysgol, gan gyfarfod â’r hysgwn ym Mynydd Sleddog ac yna yn eu blaenau i Zip World Betws-y-coed.

Yn olaf, gyda thristwch a balchder, dywedwyd ffarwél wrth Miss Elin, sydd wedi bod yn gymhorthydd dysgu gyda ni ers ei bod hi’n ifanc. Mae hi’n ymadael â ni i astudio i fod yn nyrs – byddwn yn gweld eich eisiau chi, Miss Elin.



Gobeithiwn y byddwch chi i gyd yn cael haf hyfryd, ac edrychwn ymlaen at rannu ein hadroddiad gan Estyn â chi, a fydd yn cael ei gyhoeddi 26 Awst.

# Ar foto-beic oddi ar y ffordd fawr

Hoffwn rannu profiad a gefais yn ddiweddar â chi. Mae hyn unwaith eto trwy garedigrwydd fy nheulu sydd byth yn peidio â'm synnu gyda'u dychymyg a'u haelioni. Lisa, ein cyntafanedig, y tro hwn.

Doeddwn i erioed wedi clywed am Mick Extance – ond mae wedi cwblhau rali Dakar saith gwaith yn llwyddiannus ar feic modur. Digwyddiad pymtheg diwrnod, 3100 milltir o hyd ar draws anialwch Affrica yw hwn, sy'n para pymtheg diwrnod. Mae'n cael ei adnabod fel un o'r ralïau anoddaf yn y byd gyda'r tywod a'r gwres a'r posibilrwydd o fynd ar goll a pheidio â chael eich darganfod – dim ond tywod ym mhob man.

Iawn, dyna yw ei hobi, beth yw ei swydd ddyddiol? Mae'n ddigon caredig i rannu ei angerdd dros feicio modur *enduro* ag eraill a fo yn unig sy biau'r hawl i fynd i 1500 erw o goedwigaeth uwchben Llangynog (3000 erw yw Coedwig Clocaenog, felly bydd hynny'n rhoi rhyw syniad i chi o'r hyn sydd ar gael). Mae'n mynd â grwpiau o ddim mwy nag wyth ar y tro i'w hyfforddi a reidio yn y goedwig.

Ar ôl cyrraedd y ganolfan mae eich offer ar gyfer y diwrnod i gyd yn barod ac yn disgwyl amdanoch chi – esgidiau, trowsus, siaced, helmed, ac ati, er fy mod i'n teimlo bod fy nhrowsus ychydig yn rhy fawr. Rhagor am hyn yn ddiweddarach.

Fe gawson ni gyflwyniad sylfaenol iawn i'r beiciau ar sgrin yn yr ystafell ddosbarth ac wedyn i ffwrdd â ni mewn bws bach i le yn y goedwig lle roedd y beiciau i gyd yn disgwyl amdanon ni.

Nawr, oherwydd fy mod i'n un byr o gorff, roeddwn i wedi gofyn am feic a fyddai'n sicrhau bod fy nghoesau bach yn cyffwrdd â'r llawr. Chwarae teg, roedd y cyfan wedi'i drefnu. Cefais *enduro* 125 – beic cyflym iawn ac un hawdd i'w drin. Roeddwn i'n poeni na fyddwn i'n gallu codi beic mwy pe bawn i'n cwympo – mae'n eitha trwm.

Cawson ni'n dysgu y dylai eich troed fod



ychydig fodfeddi oddi ar y llawr ac ar ongl o 45 gradd i'r olwyn flaen wrth gornelu. Felly os oeddech chi'n ddigon anlwcus i deimlo eich bod yn methu rheoli'r beic, gallech chi ei wthio oddi wrthych chi'ch hun. Peidiwch byth â cheisio dal gafael arno, meddai Carl, ein hyfforddwr. Roedd hynny ychydig yn frawychus, fodd bynnag, gan ein bod ni i gyd bron yn newydd i'r gamp. Yn ffodus ddigwyddodd hynny ddim o gwbl. Nod y dydd oedd mwynhau ein hunain, dim byd arall, ac roedden ni'n parchu gallu neu ddiffyg gallu ein gilydd – y cyfan yn waraidd iawn.

Gwnaeth Carl – sy'n fab i Mick – yn glir iawn ei bod hi'n gamp beryglus a'n bod ni'n gallu cael ein hanafu! Awgrym gwych gan yr hyfforddwr: 'Pan fyddwn yn gadael yma, peidiwch â reidio'n union y tu ôl i'r un o'ch blaen oherwydd bydd o'n creu cawod o gerrig mân (yn anfwriadol wrth gwrs). Roeddwn i'n falch iawn fy mod i wedi cael helmed gref!

Cyn gynted ag yr oedden ni'n gadael, roeddwn i'n ôl yn fy arddegau eto yn hedfan o amgylch Clocaenog ar brynhawn Sul ar fy *Fantic* – yn neidio dros y cloddiau a oedd yn ffurfio pyllau dŵr i ddiffodd tân ac roedd hwn yn brofiad tebyg iawn – ond doedd dim pyllau tân y tro hwn. Rwy'n brysio i ychwanegu nad oedd unrhyw gatiau i'r goedwig yn y dyddiau hynny – fe wnaethon nhw atal beiciau modur

# Ar foto-beic oddi ar y ffordd fawr: parhad

yn fuan wrth i feicio mynydd a cherdded ddod yn fwy poblogaidd ac rwy'n cytuno'n llwyr â hynny.

Mae hi wedi bod yn haws i fi erioed sefyll pan dwi'n reidio oddi ar y ffordd – mae rheoli'r beic yn haws o lawer pan fydd eich pengliniau'n gafael yn y tanc. Fe wnes i roi cynnig arni y tro hwn ond oherwydd bod fy nhrowsus yn rhy fawr (a bydd unrhyw un sydd erioed wedi gwisgo pâr o drowsus beic modur yn gwybod eu bod nhw'n drwm) roeddwn i'n ymwybodol eu bod nhw'n llithro i lawr. Felly penderfynais y byddai'n well i bawb pe bawn i'n dal i eistedd!

Dim ond un waith y des i oddi ar y beic – roedd rhigol ddofn yn llawn dŵr yn ddyfnach nag roeddwn i'n ei feddwl. Aeth y beic mawr o 'mlaen i drwyddo'n hawdd ond roedd fy injan i wedi'i gorchuddio'n fuan â dŵr! Roeddwn i'n chwarae o gwmpas gyda fy nhroed chwith yn chwilio am gêr arall a dyma fi'n gwegian – dim byd mawr – ac o fewn hanner munud roeddwn i ar y ffordd eto.

Mewn gwirionedd, ddaliodd y beic bach neb i fyny o gwbl a gofynnwyd i mi ychydig o weithiau, 'be 'di maint y beic yna – mae'n mynd fel y gwynt.' Rwy'n credu bod un neu ddau yn cael trafferth gyda'r beiciau mawr ac y byddai'n well ganddyn nhw gael beic llai fel yr un oedd gen i – llawn cymaint o hwyl ac yn haws i'w godi petai'n troi drosodd.

Cyrhaeddon ni'r pwynt uchaf, dwi'n meddwl, ac am olygfaQ – Pennant Melangell a'r eglwys hardd sydd wedi'i chysegru i Melangell yn y dyffryn islaw. Tra oedd gweddill y criw yn trafod beiciau modur, roeddwn i'n mwynhau'r olygfa. Dwi'n gwybod na fyddaf yn cael y cyfle i'w gweld eto – does neb o'r cyhoedd yn cael mynd i'r goedwig, felly mi wnes i'r gorau ohoni. Gallwn fod wedi aros yno'n hirach o lawer ond roedd hi'n bryd mynd am y sesiwn brynhawn a rhoi ar waith yr hyn a ddysgon ni yn y bore.

Yn rhy fuan o lawer roedd hi'n bryd mynd yn ôl



i Langynog. Cysgais fel twrch y noson honno ac yn hytrach na gwneud synau tractor, mae'n debyg 'mod i'n gwneud synau beic modur.

**Bryn Davies**

O.N. Yn anffodus, y penwythnos canlynol torrodd rhywun i mewn i weithdy Mick a dwyn ei fan a saith beic, ond mae'n mynd i godi a dal ati – yn union fel y dysgodd o i ni!

**Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu erthyglau at y rhifyn hwn**


GLYN EVANS AUTOCLINIC

Canolfan Trwsio Ceir

Ystâd Ddiwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA

GWAITH YSWIRIANT

TRWSIO CEIR AR ÔL DAMWEINIAU

CEIR I'W BENTHYG

GWASANAETH NÔL CEIR WEDI TORRI I LAWR

01745 815141
07808970364

# Taith i'r Swistir

Dechreuodd y syniad o deithio i'r Swistir wrth i ni eistedd ar y soffa adref yn gwylio Cymru'n cymhwyso ar gyfer Pencampwriaeth yr Ewros drwy guro Gweriniaeth Iwerddon yn ôl ym mis Rhagfyr llynedd. Fel merch sy'n chwarae pêl-droed, roeddwn yn ymwybodol fod tîm merched Cymru wedi creu hanes y noson honno. Roeddwn ar ben fy nigon pan ddarganfyddais ar ddiwrnod Nadolig, fy mod am gael mynd i'r Swistir gyda Mam a Leusa, fy chwaer. Syrpréis gwych!

Roedd gêm agoriadol Cymru yn y bencampwriaeth yn cael ei chynnal mewn dinas o'r enw Lucerne. Mae'r ddinas wedi ei lleoli yng nghanol Y Swistir, tua awr ar y trên o faes awyr Zurich. Mae Lucerne yn ddinas hardd a byddwn yn argymell i unrhyw un fynd yno oherwydd ei fod yn lle mor fendigedig.

Y noson cyn i ni adael, clywsom am hanes streiciau a oedd yn effeithio ar feysydd awyr Y Swistir oedd yn golygu bod rhai ehediadau wedi eu canslo. Felly roeddwn yn teimlo ar bigau'r drain wrth i ni deithio i faes awyr Manceinion ar y bore Gwener.

Wrth lwc, aeth popeth yn iawn gyda'r daith ac fe gyrhaeddon ni Lucerne ychydig ar ôl amser cinio ac aethom i archwilio'r ddinas. Un o'r prif atyniadau yw pont bren enwog o'r enw 'Chapel Bridge'. Adeiladwyd y bont yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Mae'r bont yn enwog gan mai dyma'r bont wedi ei gorchuddio hynaf yn Ewrop.



Er mor anhygoel oedd y bont, fy hoff le i yn y ddinas yn sicr oedd y *Fanzone*. Roedd cymaint o weithgareddau i'w gwneud yno – cae pêl-droed i blant, eisteddle, stondin peintio wynebau, ardal tynnu lluniau, stondinau bwyd a diod, gêm cicio targed a llwyfan perfformio. Roedd awyrgylch deuluol, braf yno a bûm yn ddigon ffodus i gael tynnu fy llun gyda rhai o garfan merched Cymru a oedd yn crwydro o gwmpas y Fanzone. Roeddwn yn arbennig o falch o'r cyfle i gyfarfod Elise Hughes gan ei bod wedi dechrau ei gyrfa yn Nomads Cei Connah, sef y tîm rydw i yn chwarae pêl-droed iddo.



Ar ddiwrnod y gêm roedd y profiad o gerdded o'r *Fanzone* i Stadiwm Allmend, Lucerne gyda chefnogwyr Cymru yn brofiad bythgofiadwy. Torrwyd y record am y 'fan walk' mwyaf yn hanes Ewros y merched gyda chyfuniad o gefnogwyr Cymru a'r Iseldiroedd yn gyfanswm o 8,000 o bobl. Braf oedd clywed cefnogwyr Cymru yn morio canu 'Yma o Hyd' i gyfeiliant y band pres!

Wrth gyrraedd y stadiwm, roeddwn yn teimlo yn hynod o falch o gael bod yn rhan o foment hanesyddol. Roedd clywed y dorf yn canu'r anthem yn emosiynol ac roedd yr awyrgylch yn hollol drydanol.

# Taith i'r Swistir: parhad

Yn anffodus, braidd yn siomedig oedd perfformiad Cymru gyda'r Iseldiroedd yn ein curo o dair gôl i ddim. Ond rhaid cofio mai dyma dro cyntaf y garfan mewn pencampwriaeth o'r fath. Ar ddiwedd y gêm, roedd cefnogwyr Cymru yn llawn balchder a derbyniodd y chwaraewyr gymeradwyaeth wresog gan y dorf.

Dwi mor ddiolchgar fy mod wedi cael y cyfle i brofi hanes yn cael ei greu yn Lucerne. Gobeithio y bydd merched Cymru yn parhau i ddisgleirio dros y blynyddoedd nesaf dan ofal Rhian Wilkinson, gan ysbrydoli mwy o ferched ifanc Cymru i gymryd diddordeb yn y gêm.

**Mati Nel**



# Gwobrau lleol

## Gwinllan y Dyffryn

Llongyfarchiadau i Gwen a Rhys sydd wedi ennill gwobr arall i'w ychwanegu at eu casgliad. Eu 'Robin Goch' oedd yr enillydd yng nghategori'r gwin coch amgen yn seremoni wobrau Wine GB yn Llundain yn ddiweddar. Tipyn o gamp mewn cystadleuaeth Prydain gyfan. Da iawn nhw a'u tîm gwneud gwin, Halfpenny Green Wine Estate




## J & G Tyres

Llongyfarchiadau i John a Gaynor Barnett ar ennill gwobr y Gymdeithas Amaethyddol Gymreig Frenhinol am eu cyfraniad at fywyd gwledig yng Nghymru.





# Rysáit

## Cyw iâr wedi'i dro-ffrio

**Cynhwysion**

1 llwy fwrdd o saws soi isel mewn sodiwm
1 wy
½ cwpan o flawd corn
1 pwys o frestiau neu gluniau cyw iâr, heb y croen na'r asgwrn, wedi'u torri'n ddarnau tenau, lled fach
3 llwy fwrdd olew olewydd
1 llwy fwrdd o sinsir ffres, wedi'i gratio neu ei falu'n fân
2 ewin o arlleg, wedi'u gratio neu eu malu'n fân
Garnais: sibols wedi'u sleisio'n denau a hadau sesame wedi'u tostio
*Ar gyfer y saws*:
Naddion croen a sudd 1 lemon mawr (¼ cwpanaid o sudd)
2 lwy fwrdd o fêl
2 lwy fwrdd o saws soi isel mewn sodiwm
1½ llwy fwrdd o finegr gwin reis
¼ llwy de o naddion tshilis coch

**Dull**

Gwnewch y saws lemon. Chwisgiwch cynhwysion y saws gyda'i gilydd mewn powlen fach nes eu bod nhw wedi'u cyfuno.

Mewn powlen gymysgu ganolig o faint, chwisgiwch y saws soi a'r wy nes eu bod nhw'n llyfn. Ychwanegwch y darnau cyw iâr a'u gorchuddio'n llwyr yn y cymysgedd.

Rhowch y blawd corn mewn powlen. Dipiwch y darnau cyw iâr yn y blawd corn, ychydig o ddarnau ar y tro, gan ofalu eu bod nhw wedi'u gorchuddio'n gyfan gwbl gan y blawd.

Cynheswch 2 lwy fwrdd o olew mewn padell sauté fawr dros wres canolig. Ychwanegwch y cyw iâr, peidiwch â choginio'r darnau i gyd efo'i gilydd er mwyn peidio â gorlenwi'r badell. Ffriwch y cyw am 3–5 munud nes eu bod yn euraid ar bob ochr ac wedi'u coginio'n dda. Rhowch y cyw iâr sydd wedi'i goginio ar blât glân.

Gwnewch y saws. Rhowch y llwy fwrdd o olew sy'n weddill yn y badell, gyda'r garlleg a'r sinsir. Ffrïwch nhw am 30–60 eiliad, gan eu troi'n aml, nes bod y garlleg yn lliw euraid ysgafn.

Tywalltwch y saws lemon i'r badell, ac ychwanegwch y cyw iâr. Daliwch ati i goginio, gan droi'r saws yn aml, nes y bydd yn tewychu ac yn troi'n orchudd sticlyd i'r cyw iâr.

Gweinwch ar unwaith, gyda'r garnais o sibols a hadau sesame wedi'u tostio.


**Townsend Supplies**
Townsend, Denbigh Ll16 3AW
01745 814918

For all farmyard & agricultural accessories & building supplies

- Tanalised timber
- Concrete posts
- Panel fencing
- Water pipe fittings
- Water tanks
- Sand
- Cement
- Concrete blocks


**Rhifau ffôn defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068

Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)

Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

# Gild Trefoil

Roedd ein cyfarfod ym mis Gorffennaf yng ngardd brydferth Tony Burrows ar brynhawn braf. Tony ei hun sydd wedi datblygu'r ardd dros y blynyddoedd. Mae'r coed wedi'u himpio a nifer o'r planhigion wedi'u tyfu o hadau. Roedd hyn yn glod iddo a gwnaeth yr ardd argraff fawr arnon ni. Cawson ni i gyd baned o de a thrafodaeth ar Ddiwrnod Trefoil Rhyngwladol a fydd yng Nghei Connah ym mis Hydref. Paned a chacennau fydd yr arlwy yn ein cyfarfod nesaf ym mis Awst.




**DBP** Denbigh Building Plastics

*SUPPLIERS & INSTALLERS*

*U_PVC windows, doors, rockdoors, secondary double glazing, sealed units. Conservatories, porches, garage doors, fascias, gutters, dry verge system, Firestone rubber roofing and canopies.*

Unit 7
Colomendy Industrial Estate
Denbigh LL16 5TA
01745 818849
**Open Mon—Fri 7.30am—5 pm**
**Sat 9 am—12 pm**


# Y Grŵp Cyfeillgarwch

Daeth y grŵp at ei gilydd yn yr Ystafelloedd Coco nos Fawrth, 1 Gorffennaf i wrando ar Mr Liam Blazey, swyddog bioamrywiaeth Cyngor Sir Ddinbych, yn rhoi sgwrs ddiddorol ar ei waith yn dad-ddofi dolydd ledled Sir Ddinbych.

Daeth rhai o'r grŵp at ei gilydd am ddiwrnod allan a chinio blasus yn Llandrillo-yn-Rhos.



# Undeb y Mamau

Ym mis Gorffennaf cawsom sgwrs ysbrydoledig gan Ewa o Oergell Gymunedol Dinbych. Soniodd am sut y dechreuodd y cyfan a'r heriau a wynebwyd yn creu'r prosiect anhygoel hwn. Mae dau nod i'r cynllun: gwastraffu llai o fwyd a helpu'r rheini sy'n cael anawsterau oherwydd costau byw uchel. Dywedodd Ewa wrthon ni am y gwaith aruthrol gan wirfoddolwyr sy'n nôl bwyd o'r archfarchnadoedd ac yn mynd ag o i'r oergell gymunedol. Mae hon fel arfer yn Eirianfa ar foreau dydd Llun a dydd Iau, ond yn ystod mis Awst, bydd yn y Capel Mawr oherwydd gwaith adeiladu yn Eirianfa. Gall unrhyw un nôl y bwyd. Roedd hi'n dda clywed eu bod yn cydweithio'n agos â'r Banc Bwyd a'r Rhandir Cymunedol i sicrhau bod bwyd ffres ar gael ac yn galonogol clywed am haelioni arch-farchnadoedd ac unigolion.

**llandyrnognews@gmail.com**

# Tuesday Club



Cyfarfu'r clwb yn yr Ystafelloedd Coco ar 16 Gorffennaf. Anfonwyd dymuniadau gorau am wellhad buan at Jennifer, a chafwyd ennyd o dawelwch er cof am John, gŵr Buddug Ffoulkes. Cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol byr i ddiwygio trefniadau ariannol y clwb, a fydd yn helpu i gwrdd â chost gynyddol cyfrannu at ddigwyddiadau blynyddol y clwb.

Y siaradwr gwadd oedd Kelly Benton o Gellifor. Yn wreiddiol o Iwerddon, roedd rhai aelodau'n ei hadnabod fel cyn-geidwad y siop a'r swyddfa bost yng Ngellifor. Rhannodd rai atgofion o'i hamser yn rhedeg y siop cyn dangos yr amrywiaeth o grefftau yr oedd wedi dod gyda hi. Mae hi'n frwd iawn dros ailgylchu, a dangosodd i ni sut y gellir addurno blychau grawnfwyd, cartonau sudd ffrwythau, poteli llaeth plastig a blychau powdr golchi, a'u trawsnewid yn gynwysyddion defnyddiol a hardd. Mathau eraill o grefftau a ddangoswyd oedd eitemau o ffelt wedi'i wneud â llaw o wlân defaid, breichledau o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu, croglun gymhleth a oedd wedi cael ei arddangos yn Nantclwyd y Dre, Rhuthun, a chardiau cyfarch.

Kelly yw cynghorydd crefftau cenedlaethol U3A – Prifysgol y Drydedd Oes – rhwydwaith cenedlaethol o grwpiau dysgu sydd â'r nod o annog pobl hŷn i rannu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u diddordebau mewn amgylchedd cyfeillgar. Mae cangen Rhuthun yn cyfarfod yn y clwb rygbi ar fore Mawrth olaf bob mis ac mae yna amrywiaeth fawr o grwpiau. Am ragor o fanylion, ewch i ruthin.u3asite.uk.

Mae Kelly hefyd yn therapydd iechyd cyfannol cymwys ac achrededig ac mae wedi bod yn ymwneud â therapïau cyfannol ers blynyddoedd lawer. Cafodd ei hyfforddi yn Llundain, Halifax, Swydd Gaer a cholegau lleol.

Daeth ei sgwrs ddiddorol iawn i ben gyda chyfle i bawb wneud eu cerdyn 'diolch' eu hunain.

Gweinwyd lluniaeth a thynnwyd y raffl. Ar ran aelodau'r clwb, cyflwynodd Anwen gerdyn pen blwydd ac anrheg i Margaret, trysorydd gweithgar iawn y clwb.

Bydd y cyfarfod nesaf ddydd Mercher, 20 Awst, 2pm yn yr Ystafelloedd Coco – croeso i bawb.




# Taith y Gymdeithas Hanes i stad Crogen

Cafodd 48 o aelodau Cymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llangwyfan daith hyfryd i Crogen, Llandderfel, ger y Bala ddydd Sadwrn, 12 Gorffennaf.

Mae Crogen yn dŷ rhestredig Gradd II* sydd efallai ble y cafodd Gwilym Brewys, Arglwydd y Fenni, ei grogi yn 1230. Cafodd berthynas â Siwan, gwraig Llywelyn ap Iorwerth (Llywelyn Fawr) a merch y Brenin John. Hi oedd arwres y ddrama o'r un enw gan Saunders Lewis.

Cafodd y tŷ ei foderneiddio gan Iarll Dudley yn 1831 a'u ddefnyddio fel ei lety hela. Yn 1864, cafodd Henry Robertson – peiriannydd sifil, entrepreneur, diwydiannwr a gwleidydd llwyddiannus iawn – y brydles ar Crogen ac wedyn daeth yn berchennog ar yr eiddo. Gwnaeth welliannau mawr ac adeiladodd Neuadd Palé gerllaw hefyd. Mae disgynnydd i Henry Robertson yn dal i fyw yno heddiw.



Cawsom ein croesawu gan berchnogion presennol Crogen, Henry a Sarah. Dywedodd Henry wrthym am hanes y tŷ a'i gysylltiadau teuluol, a chwaraeodd ran fawr yn llunio Gogledd Cymru wrth gyflwyno'r rheilffyrdd i'r ardal hon.

Cawsom ein harwain drwy'r tiroedd gan Sarah, i lawr at lannau afon Dyfrdwy, lle clywsom am yr oes fodern: cipolwg ar fywyd yng Nghrogen, profiadau diweddar yn ymwneud â gwaith elusennol a digwyddiadau masnachol, gan gynnwys rhaglenni teledu sydd wedi'u recordio yno. Yn ystod blwyddyn Henry fel Uchel Siryf, bu ef a Sarah yn rhedeg Her Cadetiaid Crogen. Cafodd y cynllun gryn effaith ar gyn-droseddwyr.

Cafwyd croeso gwych a gweinwyd te ardderchog i bawb. Rhoddodd un o aelodau'r gymdeithas, Wendy Grey Lloyd, gyflwyniad dramatig i ni a'r gwesteiwyr gan berfformio fel Siwan (wedi'i chadwyno yn ei chell!), gyda chymorth medrus Dr Chris Madoc-Jones fel Gwilym Brewys a gafodd ei gondemnio.



I ymuno â'r gymdeithas neu i gael gwybod am ei sgyrsiau arfaethedig, anfonwch e-bost at llangwyfanhistory@hotmail.com neu dewch i gael sgwrs gyda rhai o aelodau'r pwyllgor ar ei stondin yn Sioe Flodau a Chynnyrch Llandyrnog ar 25 Awst.

# Dod i adnabod... Gladys Jones

Fe ddes i i Landyrnog ar ôl yr Ail Ryfel Byd, pan ddaeth fy nhad i weithio yng ngerddi Glan-y-Wern, a oedd yn eiddo i'r Cyrnol Barton bryd hynny. Roedden ni'n byw mewn fflat yn y cwrt lle roedd stablau wedi bod. Y syndod cyntaf i fi oedd y ffaith mai menyw ar feic oedd y 'postmon' – Lesmay Griffiths o Fferm Speddyd.

Pan ddaethon ni yma gyntaf, roedd y capeli a'r eglwys yn brysur iawn, nid yn unig ar ddydd Sul ond yn ystod yr wythnos hefyd. Roedd y Sanatoriwm yn Llangwyfan yn brysur iawn, gyda llawer o gleifion hirdymor â'r diciâu. Roeddwn i'n meddwl ei bod hi'n rhyfedd eu gweld y tu allan i'r ward yn eu gwelyau, hyd yn oed ar ddiwrnodau eithaf oer. Yn y dyddiau hynny, doedd dim gwella o TB ac roedd cleifion yn cael eu trin â rhestr hir o gyffuriau, nes i'r cyffuriau *sulfa* a *streptomycin* ddod i fodolaeth. Ar benwythnosau, roedd y ffyrdd yn brysur iawn gyda bysiau o Dde Cymru, o Ysbyty Talgarth, pan fyddai perthnasau o'r ardal honno yn ymweld. Ychydig a feddyliais y byddwn i'n gweithio yn Ysbyty Llangwyfan, yr enw newydd ar y Sanatoriwm, flynyddoedd lawer yn ddiweddarach, am 18 mlynedd nes iddo gau ym 1980/81.

Bu'n rhaid i mi symud o Ysgol Grove Park, Wrecsam, i Ysgol Ramadeg Dinbych, a oedd yn wahanol iawn i'r ysgol lem yn Wrecsam. Roedd Olga a Rona Ffoulkes, Tyn Llan, yn garedig iawn ar y pryd yn fy helpu i ddod i arfer â system newydd. Roedd llai o fysiau ar gael ac roedd yn rhaid i ni ddal y bws am 7.45 y bore i Ddinbych. Nid oedd prif adeilad yr ysgol ar agor yr adeg honno o'r bore ac roedd yn rhaid i blant o ardaloedd gwledig aros mewn adeilad bach ar wahân. Pan fyddai'r ysgol yn agor, roedd yn rhaid i ni fynd i gapel Bodawen i weddïo – ac eithrio disgyblion Catholig Rhufeinig, a oedd wedi'u hesgusodi. Yn anffodus, mae'r adeilad carreg gwreiddiol a'r rhai diweddarach bellach wedi'u dymchwel i wneud lle i gartrefi.

Rai blynyddoedd yn ddiweddarach, buon ni'n byw am gyfnod yn Glan-y-Wern Lodge ger croesffordd y Waen. Roedd yn gyntefig iawn,



*Gladys gyda'i merch, Diane*

heb drydan. Yn yr ystafell fyw roedd stôf flacled gyda thân glo agored, popty a boeler a oedd yn rhoi rhywfaint o ddŵr poeth. Roedd grisiau carreg yn mynd i fyny o'r gegin. Roedd tair ystafell wely, un fawr a dwy hir, gul. I lawr y grisiau roedd ystafell eistedd hir gyda lle tân haearn bwrw. Roedd y toiled y tu allan (trwy'r diolch, un oedd yn fflysio) ac roedd ystafell ymolchi yno.

Roedd rhaid coginio naill ai ar y stof neu ar stof nwy calor fach ac roedd lamp Aladdin neu ganhwyllau yn rhoi golau i ni.

Roedd fy ffrind Aelwen Williams (Holmes yn ddiweddarach) yn byw i lawr y ffordd yn Nhŷ Capel Dyffryn ac roeddwn i wrth fy modd yn ei chlywed hi'n chwarae'r piano yn ein lolfa. Flynyddoedd lawer yn ddiweddarach bu farw Aelwen o ganser. Fi aeth â hi i Ysbyty Clatterbridge ar y diwrnod pan gafodd wybod bod y clefyd wedi ymledu. Diwrnod trist iawn. Profiad hapusach, pan oeddwn i ac Aelwen yn ein harddegau, oedd adnabod Mr a Mrs Hughes, Tŷ Gwyn. Roedd fy mam eisiau i mi ddysgu Cymraeg ac awgrymodd Mrs Hughes y dylwn ymuno â'i dosbarth Beiblaidd. Gwnes i hynny a dysgodd rifau i mi a sut i ynganu geiriau, a chefais rywfaint o eirfa.

Ar ôl y sioc gychwynnol o symud ysgol a gadael ffrindiau a pherthnasau, mi wnes i ymgartrefu yn y pen draw yn Llandyrnog. Yn fy

# Dod i adnabod... Gladys Jones

arddegau cynnar, treuliais wyliau'r ysgol yn gweithio ar Fferm Glan-y-Wern, ac roeddwn i'n mwynhau hynny'n fawr. Roeddwn i'n arfer mynd ar y ferlen wen i lawr i'r dolydd i gasglu'r gwartheg a dod â nhw i fyny i'w godro ac roeddwn i'n hapus yn gwneud unrhyw fath o waith. Roedd y cyfnod hwnnw yn un delfrydol. Roedd Mr Harry Owen a Mrs Katie Owen yn bobl dda iawn ac roedd eu plant, Dorothy a Robert, yn fach iawn ar y pryd. Yn y pen draw, daeth Dorothy yn Mrs Pattenden ac roeddwn i mor flin o glywed am ei marwolaeth yn gymharol ifanc.

Yn niwedd yr 1940au doedd dim neuadd bentref, wrth gwrs, a chynhaliwyd dawnsfeydd, gyrfaoedd chwist a digwyddiadau cymdeithasol eraill yn yr hen ysgol yng nghanol y pentref. Roedd ganddi raniad y gellid ei dynnu'n ôl i wneud ystafell fawr. Roedd rhai digwyddiadau llai yn cael eu cynnal yn yr Ystafelloedd Coco.

Ffurfiodd Mrs Gladys Ffoulkes, Fferm Tyn Llan, glwb merched ifanc a oedd yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd a byddem yn trefnu cyngherddau a dramâu yn ddiweddarach pan adeiladwyd y neuadd bentref gyntaf. Un peth y bydd hen bobl yn ei gofio am yr adeilad hwnnw oedd y llawr. Dydw i ddim yn gwybod yn union beth roedd wedi'i wneud ohono, ond os oedd y tywydd yn boeth, byddai'r haen uchaf yn toddi a byddech chi'n llithro o gwmpas, nad oedd mor ddoniol ag y mae'n swnio.






## Taith i Texas...

Bu Texas yn chwarae yn Llangollen fel rhan o'u taith ddiweddar ac roedd Penny Hughes, gyda ffrindiau o Landyrnog, ymhlith y gynulleidfa. Cafodd Penny y fraint fawr o gael ei gwahodd i gefn y llwyfan.

Mae Penny wedi anfon y llun hwn aton ni, gan ddweud: 'Roedd Sharleen mor groesawgar. Rhoddodd gwtsh fawr i bob un ohonon ni a wna i byth anghofio hynny, gan fy mod yn ffan enfawr ohoni. Rydw i wedi bod wrth fy modd efo hi ers dyddiau coleg, a nawr mae gen i feddwl mwy byth ohoni hi!'



*O'r chwith: Gemma, Chris, Sharleen, Penny, Sam, Jade, a Tom*

# Llan Llanast




Yn ein sesiwn mis Gorffennaf, roedden ni'n edrych ymlaen at ddiwedd y tymor a gwyliau'r ysgol. Efallai byddwn ni'n ymlacio ar lan y môr, yn union fel y gwnaeth Iesu ar lan môr Galilea. Mi wnaethon ni gwch mawr a'i 'hwylio' o gwmpas y neuadd, a thraeth, slefren fôr a chwyddbysgodyn. Wedyn cawson ni hwyl mewn picnic ar y traeth!

Does dim Llan Llanast ym mis Awst, felly byddwn ni'n cyfarfod eto ddydd Sul, 14 Medi am 3.30pm. Dewch i ymuno yn yr hwyl – bydd croeso mawr yn eich disgwyl chi!

# Gweithdy clera



'Diwrnod gwych o gerddoriaeth Gymreig. Roedd y tiwtoriaid yn cydweithio â'i gilydd yn hyfryd ac yn rhoi arweiniad arbenigol iawn, ac roedd y dewis o alawon yn dda.' Dyma un o'r nifer o sylwadau cadarnhaol o weithdy Clera a gynhaliwyd yn Neuadd y Pentref ar 28 Mehefin.

Trefnwyd y diwrnod gan Clera, sefydliad sy'n hyrwyddo cerddoriaeth draddodiadol Gymreig, a daeth 25 o chwaraewyr amatur lleol brwdfrydig o wahanol alluoedd i gymryd rhan a dysgu alawon gwerin Cymreig llai cyfarwydd. Arweinwyr y grŵp oedd Dave Ball (consertina) a Sue Jones (ffidil). Ysgrifennodd Sue alaw ardderchog ar gyfer yr achlysur o'r enw 'Croeso i Landyrnog', ac fe gawson ni dipyn o hwyl yn dysgu hon.

Roedd amrywiaeth fawr o offerynnau yno – ffidlau, ffliwtiau, telyn, ukelele, chwibanau tun, acordionau, consertinas, a hyd yn oed pibgorn, offeryn traddodiadol Cymreig – ychydig fel bagbib heb y bag!

Yn y bore dysgon ni alawon gwerin, yn rhannol trwy'r glust, er bod nodiant cerddoriaeth ar gael i'r rhai llai hyderus! Yn y prynhawn fe wnaethon ni chwarae alawon mwy cyfarwydd sydd fel arfer yn codi mewn sesiwn cerddoriaeth draddodiadol Gymreig. Darparwyd nodiant ac roedd y cyflymder yn gyson ac yn amrywiol i wneud yn siŵr bod pawb yn gallu dod i ben â'r alawon.

Dim ond un awgrym gawson ni ar gyfer gwella: a oedd hi'n bosib i'r amser cinio fod yn fyrrach?!

Rydym yn gobeithio trefnu gweithdy arall yn y pentref cyn bo hir. Os byddwch chi'n mynd i'r eisteddfod genedlaethol, bydd sesiwn dysgu alawon bob dydd yn y Bwthyn, wrth ymyl y Tŷ Gwerin (y prif lwyfan gwerin) o 12.30 tan 13.30 bob dydd. Felly dewch â'ch offerynnau! Yn lleol, mae gennym ni sesiwn fisol anffurfiol iawn yn y Golden Lion, Llangynhafal ar nos Mercher cyntaf y mis am 7.30. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Teri Duffy: teri.sesiwn@gmail.com. Grŵp Facebook: Sesiwn Gymreig Rhuthun Welsh Session.

**Teri Duffy**



# Hanesion Hazel



Eleni mae'r ardd wedi bod yn her. Wnaeth y cyfnod poeth ym mis Mai ddim helpu rhai o fy mhlanhigion i dyfu'r twf cyntaf sy'n angenrheidiol i gryfhau ar gyfer y tymor tyfu, a methodd rhai o'r planhigion a blannwyd yn gyntaf. Wnaethoch chi sylwi bod bagiau tyfu yn Ninbych neu'r ardal yn gyffredinol? Y llynedd, sylweddolais fod bagiau tyfu yn ddrud ac mewn ymgais i gael gwared ar blastig yn yr ardd, roeddwn eisoes wedi penderfynu rhoi cynnig ar rywbeth gwahanol. Roeddwn wedi rhoi cynnig ar dyfu ychydig o blanhigion mewn bocsys blociau defaid. Mae ffermwyr lleol yn barod iawn i'w rhoi i chi, felly cyrhaeddodd pentwr dros fy ngât un prynhawn a chefais gyfle gyda'r dril. Llawer o dyllau'n ddiweddarach a chyda chric yn fy ngwddf o blygu i lawr, roeddwn wedi drilio nifer o dyllau yng ngwaelod y bocsys. Gosodais i nhw fel eu bod uwchben y llawr er mwyn i'r dŵr ddraenio (gwers arall a ddysgwyd y llynedd – peidiwch â'u rhoi ar arwyneb solet gan nad yw'r tyllau'n gweithio ac mae'r planhigion yn mynd yn llawn dŵr). Mae'r tomatos a'r ciwcymbrau wedi tyfu'n dda ond roedden nhw'n araf i ddechrau gyda mis Mai poeth. Fe wnaeth un o'r planhigion ciwcymbr 'wlychu' gan nad oeddwn wedi cael y dyfrio'n iawn yn y dyddiau cynnar hynny. Trip cyflym i Green Fingers am blanhigyn arall ac mae nawr yn cynhyrchu ciwcymbrau melys.



Ym mis Gorffennaf cefais bla o forgrug yn fy nhŷ gwydr. Doeddwn i ddim yn ymwybodol ohonyn nhw'n llechu o dan y slabiau cerrig, oherwydd yn anffodus collais fy hen gi, Lucy, ym mis Mai yn 16 oed. Roedd hi'n arfer sefyll wrth y drws a gwrthod mynd i mewn pan fyddai'r morgrug o gwmpas, gan fy rhybuddio bod y morgrug hedfan yno. Morgrug alates yw'r aelod asgellog o deulu'r morgrug, sy'n atgenhedlu. Gwrywod a breninesau'r dyfodol ydyn nhw sydd eisiau gadael y nyth i baru a sefydlu cytrefi newydd. Maen nhw'n ddiniwed, ond mae'n golygu nad ydw i'n gallu defnyddio'r tŷ gwydr am ychydig wythnosau. Mae rhai alates anturus yn dianc trwy frig y to ac mae fy adar y to yn gwledda arnyn nhw, gan aros yn amyneddgar iddyn nhw ddod allan.

Ac o ran y tyrchod daear, peidiwch â sôn! Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn erchyll gyda'r tyrchod yn gorchuddio fy lawnt â thwmpathau niferus o bridd. Nawr, rydych chi i gyd yn ymwybodol nad ydw i'n hoff iawn o lawntos, ydych chi'n darllen fy erthygl yn rheolaidd, ond mae cael fy llethu â thwmpathau tyrchod daear yn golygu bod y lawnt yn edrych fel safle bom ac rwy'n cael trafferth gyda fy mheiriant torri gwair gan ofni y bydd y cerrig yn torri'r llafnau. Rwyf wedi rhoi cynnig ar bopeth, ond wedi dod i ddeall mai'r dull mwyaf difyr yw defnyddio fy ffrind pedair coes awyddus, sy'n sefyll yn llonydd am oriau yn aros i'r twrch godi ei ben i ddweud 'helô'. Ar ôl ychydig mae hi'n colli amynedd ac yn dechrau cloddio, wedi'i digalonni nad oes tyrchod yno mwyach.

Wedi cyrraedd pen fy nhennyn prynais rai *repellents* sonig ac fe weithion nhw am ychydig, ond ddim mwyach – a yw'r tyrchod daear yn dod i arfer â'r ffrwydradau sonig? Os oes gan unrhyw un ateb sy'n gweithio iddyn nhw, rhowch wybod i mi.

**Hazel**

# Cyfarfod cyffredinol blynyddol Neuadd y Pentre

Rhoddodd y Cadeirydd drosolwg o'r deuddeg mis diwethaf – mae'r neuadd yn parhau i fod yn llwyddiant ysgubol. Cododd y boreau coffi eu hunain £7185 yn ystod y flwyddyn (ynghyd â £2400 pellach a godwyd ar gyfer Ambiwlans Awyr) – mae hynny'n cyfateb i £479 y digwyddiad i elusennau lleol ac yn dynodi haelioni trigolion Llandyrnog. Tipyn o gamp.

Cyflwynodd y Trysorydd y cyfrifon blynyddol, a gafodd eu cymeradwyo. Cytunwyd i beidio â newid costau llogi'r neuadd.

Cafwyd y newyddion diweddaraf am faterion cynnal a chadw, ac mae'r gwaith coed wedi'i atgyweirio. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cynnig addurno'r neuadd er efallai y bydd rhaid symud yr arian a ddyrannwyd i faterion mwy brys.

Mae llawer o waith yn gysylltiedig â pharatoi ar gyfer y digwyddiadau a archebwyd – gosod y byrddau a'r cadeiriau allan a'u cadw cyn yr ysgol y diwrnod canlynol, a chadw'r ystafell isaf a'r gegin yn lân ac yn daclus. Diolch am hyn i Lynn ein gofalwr sy'n gweithio'n dawel ac yn ddiwyd.

Cafwydd adroddiad am y Sioe a diweddariad byr ar y sefyllfa bresennol. Mae'r tîm wedi bod yn brysur iawn ers mis Mawrth ac mae'r amserlen ar fin cael ei hargraffu a'i dosbarthu. Diolchwn i Roger Warner sy'n gweithio'n galed yn y cefndir. Rydym yn ffodus o gael pobl fel Roger sy'n barod i roi adnodd cyfyngedig – amser – i sicrhau ein bod yn cael sioe lwyddiannus.

Roedd hefyd yn braf gweld aelodau iau yn cymryd diddordeb yn y sioe, yn enwedig Amy Weyman a fydd yn trefnu'r sioe gŵn eto eleni.

Ethol swyddogion
Cadeirydd: Gwen Butler
Is-gadeirydd:  R.Griffith
Ysgrifennydd: Bryn Davies
Trysorydd a chlerc hurio: Ivan Butler
Archwiliwr: Samantha Davies

# Y Sioe Flodau a Chynnyrch

Cwestiwn: a oedd ymwelwyr â Sioe Flodau a Chynnyrch Llandyrnog y llynedd yn teimlo bod y sioe yn lle hapus a chadarnhaol?
Yn ein harolwg: cytunodd 100% â hyn
Cwestiwn arall oedd: a fyddech chi'n ystyried cystadlu yn sioe 2025?
A dywedodd 79% y bydden nhw.
Newyddion da: mae ffurflenni cais ar gael nawr.
Credwch ni neu beidio, mae dros 100 o wahanol ddosbarthiadau i gymryd rhan ynddyn nhw ac mae'r sioe yn cynnwys nid dim ond blodau a llysiau, ond pobi a chrefftau a ffotograffiaeth a chelf a jam a siytni a…. Digon o gyfle i bawb, waeth beth yw eich dawn.
Rhagor o newyddion da: mae'n rhad ac am ddim i gymryd rhan a gallwch gymryd rhan hyd at bum gwaith mewn unrhyw gategori. Felly os ydych chi'n methu dewis rhwng eich marmalêd oren neu'ch marmalêd grawnffrwyth neu os ydych chi'n hoff iawn o lawer o luniau rydych chi wedi'u cymryd o'ch ci neu'ch cath, eich caneri neu'ch cwningen, cewch chi gystadlu gyda nhw i gyd.
Rhan fawr o hwyl y sioe yw gweld yr holl bethau gwahanol y mae ffrindiau a chymdogion y pentref yn eu gwneud a'u pobi a'u tyfu. Mae dosbarthiadau arbennig i blant a phobl ifanc, a hyd yn oed her coginio bisgedi i ddynion yn unig.
Mae croeso cynnes a chyfle i fod yn rhan o un o uchafbwyntiau blwyddyn Llandyrnog yn sicr o gael ei groesawu i bob un sy'n tyfu llysiau a blodau, pob pobydd a phob crefftwr sy'n cymryd rhan yn y sioe.
Y dyddiad cau ar gyfer ffurflenni cais wedi'u cwblhau yw dydd Gwener, 22 Awst. Mae ffurflen gais yng nghanol rhaglen y sioe a ddanfonwyd i'ch tŷ yn ddiweddar, neu ewch i nôl copi o Siop y Pentref neu Dŷ Ceffyl Bach.
Dewis arall ydy anfon e-bost at llandyrnogshow@gmail.com i ofyn am gopi electronig.
Gobeithiwn weld eich campweithiau y mis nesaf.

# Bwrdd anrhydeddau Ysgol Llandyrnog

Cyn pasio Deddf Addysg 1944, nid oedd addysg uwchradd yn y Deyrnas Unedig yn rhad ac am ddim, er bod system ysgoloriaethau ar waith i roi cyfle i blant addawol o ysgolion cynradd fynd i'r ysgol uwchradd.




Byddai plant o Landyrnog a oedd yn ddigon ffodus i ennill yr ysgoloriaethau hyn, neu yr oedd eu teuluoedd yn ddigon cyfoethog i dalu'r ffioedd, yn mynd i Ysgol Sir Rhuthun, os oeddech chi'n ferch, neu i Ysgol Sir Dinbych, os oeddech chi'n fachgen. Dim ond yn 1938 y daeth yr ysgolion yn gydaddysgol, gydag Ysgol Sir Dinbych yn derbyn bechgyn a merched o'r ardal.

Mae 'Bwrdd Anrhydeddau' o ddisgyblion o Ysgol Llandyrnog a enillodd ysgoloriaethau naill ai i Ruthun neu i Ddinbych o 1929 tan 1954 wedi dychwelyd i'r pentref yn ddiweddar.

Y gobaith yw y gellir dod o hyd i le i arddangos y bwrdd yn barhaol. Yn y cyfamser, mae Cymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llangwyfan yn ceisio olrhain hanes rhai o'r bobl y mae eu henwau ar y bwrdd.

Bydd y bwrdd i'w weld ar stondin y gymdeithas yn y Sioe Flodau a Chynnyrch ar 25 Awst, lle byddwn wrth ein bodd yn siarad ag unrhyw un a all roi gwybodaeth i ni am unrhyw un o'r bobl hyn.

Yr hyn yr hoffen ni ei wybod yw:

- Unrhyw enw arall, llysenwau o bosibl, gan gynnwys enwau merched ar ôl priodi
- Ble roedden nhw'n byw.
- Pwy oedd eu rhieni.
- Disgrifiad byr o'u bywyd ar ôl iddyn nhw adael yr ysgol gynradd.
- Unrhyw gysylltiad pellach sydd ganddyn nhw/ a oedd ganddyn nhw â Llandyrnog.
- Naill ai ble maen nhw heddiw neu ble maen nhw wedi'u claddu.

Os oes gennych wybodaeth am unrhyw un o'r rhai ar y rhestr, dewch i'n gweld yn y sioe. Byddwn wrth ein bodd yn eich gweld ac yn cofnodi unrhyw fanylyn lleiaf y gallech ei wybod. Gall darn bach o wybodaeth arwain at ddarganfyddiadau mawr.

# Ail ffordd Rufeinig Llandyrnog

Mae'r mwyafrif o drigolion Llandyrnog a'r cyffiniau'n ymwybodol iawn o'r Ffordd Rufeinig sy'n croesi ar draws Bryniau Clwyd uwchben Llangwyfan – yn wir, mae rhannau ohoni'n cael eu defnyddio hyd heddiw. Ond, mae tystiolaeth ysgrifenedig hefyd am ail Ffordd Rufeinig sy'n mynd drwy Landyrnog a'n fferm ni ym Mhen Isa'r Waen.

Roedd teulu fy ngwraig yn gwybod am ei bodolaeth ers cryn amser. Roedd y ffordd yn mynd ar draws y tir lle saif Penpalmant heddiw, croesi Nant Simon, heibio Pen Isa'r Waen, ar draws Ffordd Eglwyswen (wrth gwrs doedd y ffordd fawr ddim yn bodoli adeg y Rhufeiniaid), yna tuag at Bodfari a Llanelwy, lle mae'n ymuno â'r brif wythïen Rufeinig o Gaernarfon (*Segontiwm*) i Gaer (*Deva Victrix*).

Mae llawer o wybodaeth wedi ei groniclo a'i gyhoeddi mewn llyfr gan E. Waddelove, *A Roman Road in the Vale of Clwyd*, er bod y cyhoeddiad allan o brint erbyn hyn.

Cofnodir bod yr ail Ffordd Rufeinig hon yn cychwyn o aradl caer Rufeinig o'r enw Llanfor, ger y Bala, ac un arall yn Caer Gai. Yna, roedd y ffordd yn mynd tuag at Gorwen, lle mae tystiolaeth o bresenoldeb Rhufeinig – nid caer yn yr ystyr draddodiadol, ond gwersyll dros dro a elwid yn Penrhos. Yna cyrraedd Rhuthun, lle mae tystiolaeth o Gaer Rufeinig yno hefyd. Er bod gwaith ymchwil yn parhau ynglŷn â'i hunion leoliad, maen nhw'n meddwl mai yn ardal Ysgol Rhuthun roedd hi.


O Ruthun, mae'r ffordd yn ein tywys i lawr Dyffryn Clwyd, a chredir ei bod yn croesi afon Clwyd yn ymyl Llanynys, cyn anelu tuag at Landyrnog.

Mae Waddelove yn credu bod arwyddocâd i enw a lleoliad Penpalmant (neu Pen y Palmant), ystyr hyn o'i gyfieithu ydi 'diwedd y palmant', gan mai o'r lleoliad hwn mae'r ffordd yn mynd ar draws caeau tuag at Pen Isa'r Waen, a chroesi Nant Simon lle mae'r llwybr a'r bont droed heddiw. I'r chwith o'r llwybr troed, mae gwrych ffiniol yn gwahanu'r ddau gae. Mae posibilrwydd cryf bod y gwrych hwn wedi bod unwaith yn ffordd wedi ei chodi – nodwedd gyffredin iawn o Ffyrdd Rhufeinig lle byddent yn creu ffosydd bob ochr i'r ffordd, a'r rwbel yn cael ei osod yn y canol er mwyn cael lle sych i droedio. O hwn mae'r gair cyfarwydd 'priffordd' yn Saesneg yn dod – *high-way*. Dros y canrifoedd, mae'n debygol bod gwrych wedi tyfu ar dop y twmpath yma sy'n dal i fodoli heddiw.

Yn ystod haf poeth 1976, ar ochr arall y gwrych gellid gweld marc crwn ar y ddaear o'r awyr. Credir ei fod yn rhyw fath o adeilad Rhufeinig, wedi'i leoli'n gyfleus yn ymyl nant i gael cyflenwad dŵr. Mae'n ddiddorol sylwi hefyd bod hen felin ddŵr gerllaw, ac adeilad o'r enw Castell – y ddau wedi diflannu erbyn hyn.

O'r pwynt hwn, mae'r ffordd yn mynd yn syth tuag at Pen Isa'r Waen – yn y dull Rhufeinig arferol, ac ar hyd ein llwybr mynediad, gan arwain tuag at Bodfari a Llanelwy, lle credir bod Caer yno o'r enw *Varis.*

**Emyr Morris**




**Bob dydd Gwener o 10am tan ganol dydd yn Siop Gymunedol Llandyrnog**

Am ragor o wybodaeth,
cysylltwch ag Eleri Jones ar 01824 719623
neu ar e-bost: advice@dcab.co.uk

**Cyngor Sir Ddinbych**

**Merfyn Parry**



Manylion cyswllt:

Ffôn: 07836 208446

*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*

*Neu gadewch neges ar Facebook*

# Crynodeb o'r materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Gorffennaf o Gyngor Cymuned Llandyrnog

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cadarnhau bod y gwaith o dorri'r tyfiant ar ymylon y prif ffyrdd wedi dechrau ym mis Gorffennaf ac y bydd y mân ffyrdd yn cael eu torri ledled y sir o ddechrau mis Awst ymlaen.

Nodwyd bod rhai ffermwyr wedi ymgymryd â thorri glaswellt ger cyffyrdd a bod nodyn yn mynd i'r Llais i ddiolch iddyn nhw.

Bydd blwch BT diffygiol yn ardal Maes Llan/ Treborth yn cael ei reportio.

Rhoddodd Vicky Owen gyflwyniad ar ei gweledigaeth ar gyfer ardal chwarae Cae Nant i ychwanegu rhagor o offer chwarae cynhwysol. Mae hi wedi cael un dyfynbris ac yn disgwyl rhagor. Bydd y Cyngor Cymuned yn cynorthwyo mewn unrhyw ffordd bosibl i symud y prosiect hwn yn ei flaen – ond bydd yn rhaid cael grant tuag ato.

Nid oes unrhyw ddiweddariad wedi dod am y rhandir ac eithrio bod CSDd yn ystyried gwneud cais am grant i gysylltu prif gyflenwad dŵr â'r safle. Fodd bynnag, mae'n debyg bod y cyhoeddusrwydd wedi ennyn diddordeb a dim ond dau flwch oedd heb eu dyrannu ac mae pob un yn gweithio ar hyn o bryd.

Rhoddodd Dr Patricia Mackinnon-Day ddiweddariad manwl a chyflwyniad fideo ar sut yr oedd wedi diwygio ei chais cynllunio ar gyfer The Old Coach House i fynd i'r afael â phryderon y Cyngor Cymuned.

Hysbysiad o gau'r ffordd dros dro yng Nghae Nant – rydym wedi cael sicrwydd y bydd cerbydau brys yn gallu mynd i mewn i'r stad bob amser.

Derbyniwyd hysbysiad o gau llwybr troed dros dro o Faes Llan heibio cefn ffatri PJ Colours. Dim ond rhan o'r llwybr fydd ar gau ar unrhyw adeg yn ystod y gwaith adeiladu tai a bydd dargyfeiriadau ar gael.

Cafwyd trafodaeth ar ymestyn terfyn cyflymder y pentref yn yr ardal honno gan fod gwaith wedi dechrau ar yr ystâd newydd. Gofynnwyd am ystyried cydweithio â Chyngor Sir Dinbych ac â'r gwasanaethau brys i weld a ydy hi'n bosib cynnal arolwg cyflymder rhwng croesffordd Celynog a Maes Llan.

Ymgynghorwyd â'r Cyngor ar bum cais cynllunio:

- Estyniad i Bant Gwyn – dim gwrthwynebiad.
- Ffenestri dormer i Treborth – y Cyngor yn cefnogi'r egwyddor ond yn methu cefnogi'r cais – nid oedd yn cydymffurfio â'r canllawiau cynllunio ynghylch ffenestri dormer – rhy fawr a rhy amlwg.
- Maes y Wern: dymchwel y tŷ presennol a chodi tŷ yn ei le – roedd y Cyngor yn methu cefnogi egwyddor dymchwel tŷ cymharol newydd. Doedd dim tystiolaeth wedi'i darparu i sicrhau bod meini prawf Polisi RD 4 wedi'u bodloni.
- Maes y Wern: estyniad i'r tŷ – y cyngor yn cefnogi egwyddor ymestyn yr annedd i weddu i anghenion y teulu. Roedd hyn ar yr amod bod yr awdurdod cynllunio yn fodlon bod y meini prawf o ran yr arwynebedd llawr ychwanegol a ganiatawyd wedi'u bodloni a golwg yr estyniad yn dderbyniol – byddai'r olygfa o'r AHNE yn ystyriaeth gydag adeilad mor fawr
- Old Coach House, Plas Bennett – mae'r cais wedi'i ddiwygio i adlewyrchu pryderon y Cyngor Cymuned.

Posteri - Cafwyd ymateb da a dychmygus i'r poster ynglŷn â gollwng sbwriel, a byddan nhw i'w gweld o gwmpas y pentref yn fuan!

Casglwyd canlyniadau'r arolwg anghenion cymunedol a bydd yr awgrymiadau sydd o fewn cylch gwaith y Cyngor Cymuned yn cael eu cynnwys yn y cynllun busnes.

*Argraffwyd gan Mike Neuman  www.neumannprintersdenbigh.co.uk 01745 814067*